Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd Ddydd Mercher 14eg Medi 2005 yn y Neuadd Sirol, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Colin Jenkins, Cyng Hugh Towns, Cyng Richard Wallace, Cyng Paul Faulkner, Mr Des Davies (Swyddog Technegol).

6590 / Medi /05 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/ 09432 Adeiladu Tafarn Goets gyda lle i aros y nos yn hen Iard CSC, Stryd Rhosmaen (Ailgyflwyno cais E / 07834 dynnwyd yn ôl 20.10.04)
Cytuno – dim sylw.

E/ 10697 Adeilad gwasanaethu arfaethedig a ffordd fynedfa ym mharc Carafannau, Gerddi Dinefwr.
Cytuno – dim sylw.

E/ 10698 Newid defnydd o fwthyn Crochenwaith / Gwyliau i fusnes Tacsi, "King's Lodge"
Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cwrdd â rheoliadau diogelwch ffyrdd.

E/10701 Addasu ystafelloedd yn Tŷ'r Drenewydd, Parc Dinefwr (adeilad rhestredig)
Dim sylw

E/10827 Ffenest bae yn 10, Heol Newydd.
Dim sylw

E/ 10964 Cynllunio Llawn ar Blotiau 28, 38, 40 Parc Pencrug. Lleihau maint yr eiddo (cyflwynir o dan E / 09823)
Dim sylw

E /11026 Addasu fflat llawr cyntaf dwy ystafell wely i 2 fflat un ystafell wely, 1, Stryd y Brenin
Dim sylw

Apêl **"**Knead The Dough Bakery" yn erbyn rhybudd gorfodaeth CSC eu bod wedi torri Rheolau Cynllunio
Rheolau – Defnyddio UPVC ym mlaen y Siop.
Dim sylw.

Awst 14165/ ConsE/ DNE Parthed gwaith i drwsio wal o amgylch Eglwys Llandyfeusant.
Dim sylw.

6591 / Medi /05 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y ceisiadau canlynol gan y Cyngor Sir:

E/10120 Addasu Fflat 3 yn uned un ystafell wely hunan gynhaliol yn 2, Stryd Caerfyrddin
E/09697 Ailadeiladu cyrn simneiau yn 5, "George Hill".
E/09888 Newid defnydd o fod yn gyfleuster storio i fod yn lle i fyw yn 2, "Cubitts Court".
E/09947 Newid defnydd siop i fod yn swyddfa yn 17, Stryd Caerfyrddin.
E/09823 Datblygiad preswyl arfaethedig ym mhlotiau 18-57 Llys Pencrug
E/10119 Gweithdy gardd at ddibenion cyffredinol yn 1, Heol Clarendon
(yn dilyn gwrthwynebiad mae'r uchder wedi'i wneud yn is fel a gytunwyd arno gyda'r Adran Gynllunio)

Gwrthodwyd y cais canlynol

E/ 10121 Warws Arwerthiannau, Teras Thomas ar gyfer Jones & Llewellyn.

6592 / Medi / 05 - I Ystyried Strategaeth ar gyfer Datblygiadau yn y Dref yn y Dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i roi'r ddogfen a luniwyd gan y Cyng Roy Davies ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn gyda'r argymhelliad y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cynllunio. Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb i ystyried y ddogfen.

6593 / Medi /05 Cludiant

1. Diwygiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau aros yn Stryd Rhosmaen a Stryd y Bont TRA483 – **nodwyd**
2. Ymestyn "Dim aros ar unrhyw adeg" yn Heol Newydd – **nodwyd**
3. Cais am gyfyngiadau aros yn Adeiladau'r Banc - **nodwyd**

6594 / Medi/ 05 Gohebiaeth

1. Parc le Conquet. Llythyr yn mynegi pryder ynglŷn â'r gwaith torri porfa. Cytunwyd y dylid anfon copi o'r llythyr at y Cynghorydd Sir Ieuan Jones er mwyn cael ei sylwadau ef.
   Tafarn "Y Three Tuns". Mae Swyddog Gorfodaeth y Sir wedi ymweld â'r lle ac wedi nodi'r newid mewn defnydd heb ganiatâd.
   Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Teilo Sant – llythyr yn gofyn am lythyr cefnogaeth yn eu cais am sicrwydd brys oddi wrth CSC am Gaban. Roedd pawb yn cytuno y dylid anfon llythyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm.